GWNEUD PETHAU'N IAWN!

CCUHP

Gair i Gall

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Cymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Cyflwyno'r Gweithdai

Rydym wedi bod yn profi'r pecyn cymorth hyn gydag ymarferwyr a phobl ifanc ledled Cymru dros y misoedd diwethaf. Cafwyd adborth gwerthfawr gan ddisgyblion, cwnselwyr ysgol, nyrsys, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, rhieni ac athrawon ac rydym wedi ymgorffori eu hawgrymiadau yn y fersiwn bresennol.

Dyma ychydig o'u hawgrymiadau er mwyn i chi gael sesiynau gwerthchweil!

- Cyflwynwch brif bwrpas y sesiwn a thrafodwch yr ymwybyddiaeth bresennol o'r UNCRC yn gyffredinol (Hwylusydd)
- Siaradwch am gefndir datblygiad y pecyn cymorth a disgrifiwch yn fyr yr elfennau gwahanol sy'n rhan ohonno (Hwylusydd)
- Ar gyfer y gweithdai Cynradd gwnewch yn siwr ei fod yn hwyl ac yn gyfeillgar, defnyddiwch gymhorthion gweledol a chael disgyblion i restru eu dymuniadau (Nyrsys Ysgol)
- Fel cyflwyniad ysgrifennwch y llythrennau UN yn gyntaf ar fwrdd gwyn rhyngweithiol neu siart troi er mwyn dechrau gyda theitl cyfarwydd y gall cyfranogwyr uniaethu gydag ef, yna esboniwch y C am confensiwn a beth yw ei ystyr, gofynnwch iddynt ystyried beth yw'r RC gan ddechrau gyda'r C a gorffen gyda'r hawliau – esboniwch bwrpas y gweithdy (Hwylusydd)
- Sicrhewch fod Y Camau Nesaf yn addas i ethos ac athroniaeth eich sefydliad (Cynhadledd Cwnsela)
- Rhowch enghreifftiau o sut mae'n berthnasol i'w bywydau hwy – mae'n eu helpu i ddeall (Ysgol Uwchradd Duffryn)
- Cadwch yr ansoddeiriau ar sut yr oeddynt yn teimlo pan fydd pobl ddim yn gwrando/pobl yn gwrando ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol neu'r siart troi drwy'r wers ac atgoffwch bawb o'u pwysigrwydd wrth ddod at ddiwedd y gweithdy (Hwylusydd)

- Dewiswch y testunau trafod yn ofalus, testunau perthnasol i'w hanghenion a'u diwylliant, a defnyddiwch iaith addas ar gyfer pob oedran (Cynhadledd Sipsiwn-Teithwyr)
- Cynhaliwch y gweithdy mewn lleoliad cyfarwydd a chyfforddus (Nyrsys Ysgol)
- Angen i'r rhan Mynegi Barn fod yn berthnasol i'r criw o dan sylw, byddwch yn ymwybodol o unrhyw sensitifrwydd diwylliannol, rhai testunau'n fwy addas i arddegwyr hŷn (Ysgol Uwchradd Cathays)
- Byddwch yn ymwybodol o broblemau llythrennedd a/neu broblemau iaith (Cynhadledd Sipsiwn-Teithwyr)
- Rhowch obaith i'r bobl ifanc – mae hyn yn eu gwneud i deimlo yr un mor bwysig ag unrhyw oedolyn! (Ysgol Uwchradd Duffryn)